CYNGOR CYMUNED LLANYBYDDER

CYFARFOD 30 MEHEFIN 2025

1. Croeso gan y Cadeirydd

2. Yn bresennol: K Jones, Cadeirydd, D Owen, M Morris, H Jones.

Ymddiheuriadau: N Morris, Is-Cadeiryddes.

Llofnodwyd a derbynwyd ffurflen Derbyn Swydd gan H Jones ar gyfer cofnod.

Mrs O Williams – Derbynwyd e-bost wrth O Williams yn mynegi diddordeb posibl mewn ymuno â'r Cyngor. Hoffai fynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf i ddeall sut mae pethau'n gweithio. Mae'r Clerc i roi gwybod iddi pryd fydd y cyfarfod nesaf.

**3. BUDDIANNAU PERSONOL NEU RAGFARNOL**

Dim.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Mai 24 – 2.3 - Llinellau ar y Cwrt Tenis – Mae'r Clerc wedi cysylltu â chwmnïau ac yn arcs am ddyfynbrisiau.

Mai 24 – Uned storio – Mae'r Clerc i barhau â'r archeb i Mark Jukes.

Ebrill 25 – 5.3 - Sebra yn y parc – Mae'r Clerc i holi Gareth.

Ebrill 25 – 5.4 - Paentio postiau gôl – M Morris yn delio â'r mater.

Ebrill 25 – 6.1 - Arwydd stryd a'r palmant wedi'u difrodi – Adroddwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin; dim ymateb eto.

6.15 – Mr Garside – Mae wedi i'w gadarnhau drwy Dogfennau Eiddo ynghlyn a'r ffiniau bod y cyfrifoldeb yn sefyll gan ein Cyngor ni. Derbyniwyd dyfynbris wrth T Evans am ffens newydd - £640 + TAW. Y Clerc i ddweud wrtho am gario ymlaen a'r gwaith yma.

6.16 - Diwrnod VE – Clerc i ddanfon llythyr o ddiolch i'r Barchedig Eileen Davies.

6.1 - Byrddau hysbysu – D Owen i gysylltu â Dai Thomas am lanhau a chefnogaeth i'r byrddau yma, a gofyn a ellir gael cefnau gwahanol i'r byrddau, e e, fel corc efallai gan ei bod yn annodd i sticio unrhyw bapurau. D Owen i ofyn I Dai Thomas am ei syniadau gorau.

6.2 - Toiledau – Mae arogl cyffuriau; i'w fonitro.

6.3 - Toiledau anabl – Drws ddim yn cau'n iawn heblaw ei fod yn cael ei wthio. D Owen i'w holi.

6.4 - Tyrau Heol Gwrdy – Dim ymateb gan y Cyngor Sir; Clerc i ddanfon nodyn atgoffa.

Tyrau ar y sgwar gwaelod hyd flaen Dolgwm Stores. Clerc i gysylltu a Mrs B Edwards a gofyn i rhywun lleol a rydynt yn gwybod y cyfeiriad.

6.5 – Poplars -Canghennau wedi cwympo – i'w archwilio yn ein cyfarfod nesaf.

**6. MATERION NEWYDD LLANYBYDDER**

6.1 Rhoddwyd ganiatad i rhywun yn Heol Y Gaer er mwyn iddynt gael mynd mewn drwy'r parc i wneud gwaith ar ei ty.

6.2 Coeden maes parcio – Derbynwyd ebost wrth T Gordon. Mae coden yn y maes parcio tu ol y stop y bws; mae'r canghenau yn hongian dros y palmant ac ar gopa'r stepiau. Mi ddaliodd un cangen uwchben ei llygad ac mi rhoddodd wybod i Gyngor Sir Gar ar unwaith. Diolch iddi hi am adroddi'r mater a rhoi gwybod i ni er mwyn i'r Clerc nodi'r mater.

6.3 Cais am ddefnyddio'r Parc – Ebost wrth Angharad Lewis, Clwb Rygbi yn gofyn am ganiatad i ddefnyddio ein Parc ar ddydd Sadwrn 16/08/25 er mwyn cynnal "Picnic yn y Parc" o 9yb – 3yh. Mae A Lewis yn gweithio wrth ochr Menter Gorllewin Sir Gar & Canolfan Teuluol Llanybydder. Gan fod A Lewis yn Weithredwr Digwyddiadau Proffesiynol, rhoddwyd ganiatad iddi.

6.4 Lyn Jones – blodau etc – Mi gyfarfododd y Clerc a Lyn Jones yng ngardd y Mileniwm – roedd un o'r potiau mawr wedi torri; yn edrych yn debyg wedi cael ei wthio ac mewn dau ddarn. Bydd yn well i gael potiau plastig yn eu lle. Roedd y ddwy sedd wedi'u trwsio. Mi drwsiodd a pheintiodd L Jones un o'r seddau a bydd yn trwsio'r llall hefyd. Mae wedi rhoi rhagor o flodau. Clerc i ddanfon llythyr i L Jones i ddweud wrtho os bydd unrhyw fater yn dod i sylw yn y dyfodol neu angen rhywbeth am iddo rhoi yn ysgrifenedig i'n Cyngor er mwyn i'r materion cael eu trafod yn ein cyfarfodydd.

6.5 Gweithiwr crefft – I barhau.

6.6 Fandaliaeth yng nghae y Clwb Rygbi – Clerc i rhoi gwybod I PC Awen.

6.7 Posibilrwydd fandaliaeth / problemau – Clerc i ddweud wrth Tomos Evans os fydd yn gweld rhywbeth o le neu unrhyw arwydd o fandaliaeth / problemau yn y Parc, fel gwydr wedi torri neu unrhyw beth arall, i rhoi gwybod i'n Cyngor, a nodi'r dyddiadau ac amserion er mwyn i'n Cyngor i actio.

6.8 Parc – Llwybr beiciau, postyn clwyd a choncrit a'r gaffl gerdded – Ebost wrth T Evans yn dweud ei fod wedi disodi y coed pwdrid. Mae wedi ailfydlo'r postyn clwyd a'r concrit a mae'r gaffl gerdded yn awr yn cau. Mi ddarparodd ein Cyngor a lluniau chyn a thu hwnt o'r gwaith, ac anfoneb roedd yn berthnasol.

## 7 MATERION RHYDCYMERAU

7.1 Gormod o dyfiant Bro Merau - E-bost i'w ddanfon i Maria Tucker i ddweud am y chwyn, porfa wedi tyfu gormod a mwswm o flaen y stad yma i gyd ac o'r tarmac i'r cyrbau.

## 8. DEG TREF

8.1 Miwral ar yr uned storio – Ebost wrth D Owen. Mae wedi siarad a Mared a dywedodd efallai all yr uned storio fod yn addas i dderbyn y miwral, ond mae'r artist yn edrych i fewn a oes rhyw adeilad arall a diddordeb, ac os na fydd, yr uned storio.

8.2 Cais Yr Hen Ysgol – Ebost wrth D Owen yn gofyn a fyddai ein Cyngor yn bodloni cynorthwyo cais am grant at weliau herbiau ac esiteddfa. Na fydd rhaid i'n Cyngor ni wneud dim. Y Cynghorwyr i gyd yn cytuno. Danfonodd D Owen gopi o'r cais i'r Clerc.

## 9. HYFFORDDIANT CYNGHORWYR A CHLERC

Dim i adrodd.

## 10. GOHEBIAETH

10.1 Trafodwyd anfoneb Colin Wagner (Tiny Thumb). Ar ol cymeryd cyngor penderfynwyd peidio â thalu'r anfoneb. Ar ol edrych ar y cofnodion dros y 12 mis diwethaf, nid oedd dim yn dangos arnynt bod C Wagner yn mynd i ofyn am daliad, a phan oedd yn Gadeirydd. Roedd y cofnodion wedi cael eu harwyddo i gyd gan C Wagner

a dim materion rhagorol yn cael eu codi. Danfonodd ei anfoneb ar ol iddo ddiymswyddo.

10.2 Storio i Gyngor Cymuned Llanybydder - Clerc i ateb T Gordon a dweud fod y gwaith y maes parcio bron a dod i ben, a phan ddigwyddir hyn bydd ein Cyngor yn prynu'r uned storio ac ar unwaith byddwn yn gwneud trefniadau i wacau o'r Krazy Horses.

10.3 Laptop i'r Clerc – Ebost wrth bccIT yn dweud fod laptop y Clerc yn dod i ben. Clerc i ofyn am ddyfynbris wrth bccIT am laptop newydd, ac mi dderbynwyd. Roedd y ddyfynbris am:-

| | |
|---|---|
| HP Probook – 15.6" 15 CPU – 8GB RAM – 256GB SSD – Win 11 Pro | £700.00 |
| RAM Upgrade to 16GB | 40.00 |
| Microsoft Office 2024 Home & Business | 239.00 |
| BCC IT Endpoint Protection – Annual | 48.00 |
| Professional Services – Onsite Installation & Configuration | 215.00 |
| Disposal of PC / Laptop including destruction of HDD | 23.00 |
| | 1265.00 |
| TAW | 253.00 |
| Cyfanswm y ddyfnbris | £1518.00 |

Clerc i gysylltu a bccIT i gofyn iddynt a oes angen yr holl bethau uchod ar y Clerc. Os yw'r Clerc yn hapus a'r atebion gan bccIT mi all archebu'r laptop newydd.

**11. CYNLLUNIO**

PL/09302 – Adeiladu 21 o dau. Tir gwrtherbyn a Phantycelyn, Bro Einon, Llanybydder SA40 9RA.

Nid oes gwrthwynebiad os bydd cyfleoedd tai yn berthnasol i fobl lleol.

PL/9378 – Adeiladu shed storio a sylfaen gweithredu gosodiad trydanol a gwellantau – Tir gwrtherbyn a Bwlch y Bryn, Llanybydder.

Dim gwrthwynebiad.

ENF/01534 – Sarngini Fach, Llanybydder SA40 9SA – Llythyr wrth Rhodri Griffiths a chopi o'r rhesymau am baratoi'r Hysbysiad Gorfodu yma - derbyniwyd llythyr am dor-cyfraith rheoli cynllunio.

## 12. CYLLID

Datganiadau Banc

| | | | |
|---|---|---|---|
| NatWest | Cyfrif Cyfredol | 20/05/25 – 19/06/25 | £44,104 |
| HSBC | Datganiad Banc Rhif 167 | 01/06/25 – 30/06/25 | 4,167.85 |

**TALIADAU**

**GORCHMYNION SAFLE**

TALKTALK Credyd £18.27 – Clerc i'w ddilyn.

BT Anfoneb 07/06/25 £79.71.

Roedd yn anhygoel phan ddywedodd BT wrth y Clerc bod problem arall rhyngddynt ac Open Reach. Roedden wedi dweud wrth y Clerc y tro hyn fod popeth yn ei le ac ein bod mewn cytundeb ac hwy. Derbynwyd dogfennau newydd wrth BT a roedd yn dangos yr un manylion fel o'r blaen.

**TALIADAU AR LEIN**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27/05/25 | Cyngor Sir Gar | £8445.76 | Trydan goleuadau stryd. |
| 29/04/25 | EDF | 243.61 | Trydan y toiledau. |
| 24/06/25 | M Y Beynon | 1198.67 | Cyflog 6/25. |
| 24/06/25 | HMRC | 299.80 | Treth 06/25. |
| 25/06/25 | K Jones | 550.00 | Clanhau toiledau – Anfoneb 06/25. |
| 25/06/25 | Tomos Evans | 1831.56 | Cytundeb parc etc. |
| 02/07/25 | Mark Jukes | 3,360.00 | Uned storio. |
| 09/07/25 | Eryl Jones Yswiriant | 889.01 | Yswiriant Digwyddiadau. |

**M Y BEYNON – CYFLOG**

Cyflog Mehefin 25 £1498.47.

Treth 299.80.

Taliad i'r Clerc £1198.67.

**INCWM**

Dim.

**RHODDION**

Dim.

Rhoddion i'r diwrnod: S137 £750.00 S19 £0.00

**COMISIWN ELUSENNAU**

Mater mewn llaw.

**ARCHWILWR MEWNOL**

Mae'r cyfrifon blynyddol wedi eu cwblhau gan y Clerc a danfonwyd i'r Archwilwr Mewnol. Mewn siarad a'r Archwilwr yng Nghaerfyrddin dywedodd y Clerc am yr £175.00 sy'n ddyledus i HMRC a gofyn i LHP i dynu bant y ffigwr hyn, gan fod Archwilio Cymru wedi nodi'r broblem yma yn eu adroddiad. Arwyddodd K Jones, Cadeirydd a'r Clerc y cyfrifon ar y llyfyr Collins. Derbynwyd y cyfrifon wrth LHP wedi eu paratoi ar eu cyfrifiadur ac yn talio a chyfrifon y Clerc. Nid oedd unrhyw fater arall neu phryderon yn dod i sylw ein Cyngor.

**ARCHWILIO CYMRU**

Bydd y cyfrifon blynyddol am y flwyddyn 31/03/25 yn cael eu danfon i Archwilio Cymru ac yn cynnwys y papurau perthnasol. Mae yn cael ei gofnodi bod yr Datganiadau Cyfrif a'r Llywodraethiant blynyddol wedi cael cymeradwyaeth gan ein Cyngor ac ei nodi ar dudalen 5 o'r Dychweliad Blynyddol a nodi a'r gofnodion 30 Mehefin 2025.

**ERYL JONES TD - ADNEWYDDIAD YSWIRIANT DIGWYDDIADAU**

Derbynwyd Hysbysbydd Adnewyddiad. Tal o £889.01.

**RHEOLIADAU ARIANNOL 2025**

Penderfynwyd i gael cyfarfod Tims rhyw amser yn fuan.

**GORCHYMYN SEFYDLOG**

Penderfynwyd i gael cyfarfod Tims rhyw amser yn fuan.

**UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

meeting closed 9.17yh

CYFARFOD NESAF YN FESTRI CAPEL ABERDUAR

NOS FAWRTH 29 GORFFENNAF 2025 - 7.00yh